| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 7 |
| Priodol gydag amheuon | 1 |

**Achos 1**

Mae'r Panel yn cydnabod yr adroddiad cynhwysfawr a ddarparwyd gan Dîm Swyddogion Ieuenctid Powys a'r gwaith rhagweithiol a gyflawnwyd gyda'r Troseddwr Honedig (TH). Nodwyd bod y TH wedi derbyn gwarediad adferol ieuenctid o'r blaen am drosedd gwahanol, felly penderfynodd y Panel bod y gweithgarwch dargyfeiriol yn ganlyniad priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 2**

Mynegwyd pryderon am oed ifanc y TH, ond trafodwyd ei fod yn hanfodol bod ieuenctid yn aros allan o'r system cyfiawnder troseddol cymaint â phosibl. Gan hynny, cytunodd y Panel bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

Nododd y Panel fod tri TH ar gyfer y digwyddiad hwn. Ystyriodd y Panel y TH dan sylw yn gyntaf, a phenderfynu bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol gan mai hwn oedd ei drosedd cyntaf. Fodd bynnag, nododd y Panel nad oedd y ffurflen RJ1 ar gyfer un o'r troseddwyr honedig eraill wedi'i gyflwyno i'r Tîm Swyddogion Ieuenctid, a phan gafodd ei chwblhau, roedd 7 mis wedi mynd heibio. Gan hynny, penderfynwyd nad oedd o fudd i'r cyhoedd i barhau. Felly, daeth y Panel i'r casgliad bod y datrysiad y tu allan i'r llys a gyhoeddwyd ar gyfer y TH yn briodol, ond roedd ganddynt amheuon am yr achos ehangach.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 1: Rhoi adborth i'r swyddog(ion) yn achos Unigolyn Ifanc 3 ar bwysigrwydd cyflwyno ffurflenni RJ1 yn brydlon.** |

**Achos 4**

Nodwyd bod gwerth yr eitemau'n isel a bod y TH wedi cyfaddef i'r drosedd. Nododd y Panel y gwaith diogelu rhagweithiol yr ymgymerwyd ag ef gan y swyddog, gan ddod i'r casgliad bod y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

Nododd y Panel y TH bregus a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad, ac fe wnaethant gytuno bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn ganlyniad priodol ar gyfer y trosedd hwn. Ni fynegwyd unrhyw bryderon pellach.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

Cydnabuwyd mai hwn oedd y trosedd cyntaf ar gyfer y TH a bod gwerth yr eitemau a ddygwyd yn isel. Gan hynny, cytunwyd bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol ar gyfer yr achos hwn.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 7**

Trafododd y Panel werth isel yr eitemau a gafodd eu dwyn a chyfaddefiad y TH. Nodwyd hefyd mai hwn oedd trosedd cyntaf y TH, felly ystyriodd y Panel bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 8**

Nododd y Panel y tebygrwydd rhwng achos 8 ac achos 7 gan ei fod yn drosedd gwerth isel gyda'r TH wedi troseddu am y tro cyntaf. Cytunodd y Panel bod y datrysiad y tu allan i'r llys a gyhoeddwyd yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

